

# Darlithwyr AB

## Arolwg Cenedlaethol Gweithlu Addysg 2021

### Dadansoddiad o sylwadau testun agored



#### 1. Baich gwaith

**Themâu cyffredinol o gwestiwn testun agored awgrymiadau i wneud gwaith yn fwy hylaw.**

- Lleihau nifer yr oriau cyswllt;
- llai o weinyddu/gwaith papur/cyfarfodydd;
- recriwtio/cymorth ychwanegol i gynorthwyo gyda baich gwaith;
- mwy o amser i baratoi adnoddau, neu gael mynediad at gronfa o adnoddau y gellir eu rhannu;
- gwella mynediad at y dechnoleg briodol i'r holl staff a myfyrwyr.

**Cyfanswm yr ymatebion: 1,722**

**Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 829**

Mewn ymateb i:

*4. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eich bod yn gallu rheoli eich baich gwaith presennol yn effeithiol o fewn eich oriau gwaith dan gontract? (dewiswch un) (pan ddewiswyd naill ai anghytuno neu anghytuno'n gryf, gofynnwyd y cwestiwn testun agored "A oes gennych awgrymiadau ymarferol ar y newidiadau a fyddai'n helpu i wneud eich baich gwaith yn fwy hylaw?"*

#### Dadansoddiad o sylwadau ynghylch sut i wneud gwaith yn fwy hylaw

##### 1.1. Lleihau nifer yr oriau cyswllt (384 o sylwadau)

- Yr awgrym mwyaf cyffredin o bell ffordd mewn ymateb i C4 oedd gostwng oriau cyswllt. Awgrymodd llawer y dylid lleihau oriau addysgu o 24 i 20 i greu mwy o gyfle i gynllunio, paratoi a myfyrio;
- Yn yr un modd, cafwyd rhai sylwadau ynghylch codi'r oriau cytundebol cyffredinol i gwmpasu cynllunio, paratoi a myfyrio.

##### Enghreifftiau

*Mae 24 [o oriau cyswllt] yn afrealistig gyda dim ond 30 munud o amser paratoi fesul gwrs, mae aseiniad yn hawdd yn cymryd 30 munud i'w farcio i bob myfyriwr, ac yna 15 munud arall ar gyfer gwaith papur BTEC. Dosbarth o 30 gyda dim ond 4 aseiniad sydd yn y pen isaf, ac mae hynny'n 90 awr y flwyddyn, gyda 18 awr yn cael eu rhoi i wneud hynny. Mae hyn heb waith gweinyddu, olrhain, cymorth arall ac ati, nid yw'n cynnwys paratoi ar gyfer y dosbarth, cynhyrchu nodiadau ac ati.*

*Pe bai oriau addysgu'n cael eu lleihau yna byddai popeth arall yn disgyn i'w le. Yn ogystal â hyn, byddai cael diwrnodau dim addysgu yn helpu bob wythnos. Rwy'n addysgu drwy'r dydd. Felly mae'n rhaid gwneud pob tasg weinyddol rhwng gwersi, dros ginio, gyda'r nos, ar benwythnosau.*

*Cynyddu'r oriau y cawn ein talu amdanynt, yn enwedig marcio; mae marcio'n cymryd amser pan fydd gennych 40 o fyfyrwyr mewn un grŵp.*

*Dyrannu mwy o oriau â thâl i adlewyrchu'n well yr amser sydd ei angen i baratoi ar gyfer yr addysgu a'r dysgu, a'u cyflenwi a'u hases.*

### **1.2. Llai o weinyddu/gwaith papur/cyfarfodydd (238 o sylwadau)**

- Roedd gweinyddu/gwaith papur/cyfarfodydd yn cyfrif am gryn dipyn o amser i ddarlithwyr AB. Teimlir bod rhywfaint o weinyddu'n ddiangen ac, ar adegau, mae gwaith papur yn cael ei ddyblygu gan achosi baich gwaith ychwanegol.

#### Enghreifftiau

*Llai o waith gweinyddol; er enghraifft bu'n rhaid i mi fel cydlynnydd y cwrs gael llythyrau at fy dysgwyr am ddychwelyd i'r coleg fesul dipyn. Bu'n rhaid imi lenwi tair dogfen wahanol er bod un ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth yn barod, ond eu bod am ei chael mewn fformat gwahanol. Rydym yn gwneud cofrestrï ond yna mae'n rhaid i ni lenwi ffurflen ar wahân am bresenoldeb bob wythnos ar gyfer myfyrwyr CITB. Y dyblygu yw'r rhan fwyaf rhwystredig o'r gwaith gweinyddol.*

*Llai o fiwrocratiaeth. Gellir cyflawni hyn drwy gael meddalwedd nad yw'n mynnu dyblygu gwaith a hefyd systemau sy'n gydnaws â'i gilydd. Gellid ei gyflawni hefyd pe bai'r holl staff (addysgu a rhai nad ydyn t yn addysgu) yn croesawu'r un systemau. Mae staff addysgu yn gymwys iawn bellach yn defnyddio meddalwedd ar-lein gydweithredol, ac eto mae staff nad ydynt yn addysgu yn dal i dueddu i ddefnyddio meddalwedd fwy traddodiadol, sydd, mewn llawer o achosion, yn golygu bod yn rhaid addasu neu ail-greu dogfennau gweinyddol a grëwyd mewn un set o feddalwedd i'w hanfon at staff nad ydynt yn addysgu. Mae angen ailwampio'r systemau gweinyddol a ddefnyddir mewn addysg yn llwyr gan eu bod mor hen.*

*Lleihau tasgau gweinyddol, gan gynnwys gwaith papur gormodol sydd ynghlwm wrth gyfiawnhau pob penderfyniad a wneir, yn enwedig o ran asesu. Os wyf wedi gwneud penderfyniad asesu, mae'n seiliedig ar fy marn broffesiynol. Ni ddylwn orfod treulio 10-15 munud ychwanegol y myfyriwr, yn ei gyfiawnhau i rywun arall i arbed yr amser iddo ddarllen y gwaith.*

### **1.3. Recriwtio/cymorth ychwanegol i helpu gyda baich gwaith (93 o sylwadau)**

- Darparwyd awgrymiadau ychwanegol lle nodwyd bod gweinyddu'n rheswm dros fwy o lwyth gwaith. Teimlai darlithwyr AB y dylid dirprwyo rhai o'u dyletswyddau gweinyddol i feysydd eraill;
- Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys y gallai agweddau ar eu gwaith gweinyddu gael eu cyflawni gan rannau eraill o'r coleg, neu y dylid recriwtio staff ychwanegol i gynorthwyo.

#### Enghreifftiau

*Pe bai'r coleg yn cyflogi staff gweinyddol a chydlynwyr a allai helpu, yna byddai'n caniatáu i'r athrawon neilltuo eu hamser i addysgu a chefnogi'r dysgwyr yn eu dysgu.*

*Cyflogi staff cymorth i wneud dyletswyddau gweinyddol fel cofrestru myfyrwyr, cofrestru ar gyfer arholiadau, casglu ffurflenni caniatâd, gwirio offer TG, llungopïo, anfon llythyrau, argraffu llythyrau.*

*Cael mwy o staff gweinyddol a allai helpu darlithwyr gyda'r dyletswyddau gweinyddol o ddydd i ddydd sy'n cymryd cymaint o'n hamser - mae galwadau ffôn i rieni fel arfer yn cael eu gwneud yn ystod ein hegwyl ginio*

*Defnyddio staff nad ydynt yn addysgu ar gyfer trosi gwaith yn ddigidol*

#### **1.4. Mwy o amser i baratoi adnoddau, neu gael mynediad at gronfa o adnoddau y gellir eu rhannu (47 o sylwadau)**

- Sawl awgrym ar gyfer cronfa adnoddau genedlaethol wedi'i datblygu gan gyrff dyfarnu neu gan ymarferwyr profiadol (yn arbennig o ddefnyddiol i athrawon newydd gymhwys); gan gynnwys cynlluniau asesu a marcio y gellir eu haddasu.

##### Enghreifftiau

*Gwneud cronfa o adnoddau a deunyddiau asesu ar gael i osgoi llawer o amser a dreulir yn creu adnoddau o ddim ar gyfer llawer o wersi a chysiau.*

*Rwy'n cael trafferth gan nad oes cronfa o adnoddau ar gael ar gyfer sgiliau hanfodol.*

*Cael adnoddau presennol y gallwch eu newid i weddu a'u diweddarau, lle bo angen, yn hytrach na chreu adnoddau newydd o ddim drwy'r amser.*

*I helpu amser paratoi, byddai prynu deunyddiau parod yn ddefnyddiol, a byddai amserlennu da sy'n caniatáu i staff ddarparu'r un uned sawl gwaith, lle y bo'n briodol, yn syniad da hefyd.*

*Mae'n amhosibl cynllunio a darparu deunyddiau addysgu o ansawdd uchel o fewn yr amser y caf fy nhalu i wneud hynny.*

*Y peth mwyaf defnyddiol fyddai pe bai deunyddiau addysgu wedi'u paratoi y gellid eu defnyddio i gyflenwi ac asesu'r addysgu a'r dysgu.*

#### **1.5. Gwellu mynediad at y dechnoleg briodol i'r holl staff a myfyrwyr (45 o sylwadau)**

- O ran y cyfarpar a ddarperir i rai, nid yw'n cael ei ddarparu neu nid yw'n addas at y diben;
- Mae rhywfaint o waith gweinyddu'n golygu mewnbynnu i nifer o systemau – gallai gwell technoleg ac awtomeiddio helpu i leihau'r baich gweinyddol.

##### Enghreifftiau

*Mae arnom angen systemau TG da, wedi'u cynllunio a'u rheoli gan yr holl randdeiliaid, staff TG yn ogystal ag ymarferwyr addysgol (athrawon); yn hytrach na'u rhoi i athrawon, cyn canfod nad yw rhai pethau'n gweithio, neu eu bod yn ailadroddus a heb fod yn rhesymegol ac ati.*

*Seilwaith TG gwael yn y coleg. e.e. Nid yw llungopiwyr yn gweithio. Rhyngrwyd yn araf ac yn ddiymateb. Mae'r gliniadur a roddwyd ar gyfer gweithio gartref yn rhad ac yn brin o bŵer.*

*Gwell systemau sy'n cysylltu â'i gilydd yn glir fel na chaiff tasgau eu hailadrodd ac fel nad wyf yn ateb yr un cwestiynau i wahanol bobl.*

*Gwellu prosesau/gweithdrefnau a rheoli data, cynyddu awtomeiddio a lleihau ailadrodd tasgau lluosog sy'n gofyn defnyddio'r un data.*

**Themâu cyffredinol o'r cwestiwn testun agored pam mae'r baich gwaith wedi cynyddu oherwydd dysgu cyfunol.**

**Rhesymau gwaith ychwanegol**

- amser annigonol i ymdrin ag agweddau paratoi'r rôl;
- dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt (un ac un/bugeiliol/lles);
- TGCh - dyluniad a dibynadwyedd systemau TG/diffyg cymorth sydd ar gael;
- gofynion gweinyddu a / neu waith papur - tasgau ymarferol fel olrhain presenoldeb;
- amser annigonol i gyflawni marcio, adborth ac asesu;
- heriau cyflwyno dysgu ar-lein/cyfunol/dysgu hybrid.

**Awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella**

- newid i'r oriau cyswllt er mwyn caniatáu mwy o amser paratoi a marcio;
- cronfa adnoddau genedlaethol wedi'i datblygu gan gyrff dyfarnu neu gan ymarferwyr profiadol;
- gwelliannau TGCh;
- hyfforddiant ychwanegol i'w ddarparu ar gyfer staff a dysgwyr;
- addasu disgwyliadau tra bydd dysgu cyfunol yn digwydd.

**Cyfanswm yr ymatebion: 1,722**

**Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 1,125**

Mewn ymateb i:

*8. Sut mae darparu dysgu cyfunol / dysgu o bell yn ystod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar eich baich gwaith? Os yw "wedi cynyddu ychydig" neu "wedi cynyddu'n sylweddol", gofynnwyd y cwestiwn testun agored canlynol "Os yw eich baich gwaith wedi cynyddu ychydig neu'n sylweddol, esboniwch beth fu'r gwaith ychwanegol ac unrhyw awgrymiadau ymarferol ar sut y gellid gwella hyn"*

**Dadansoddiad o sylwadau ynghylch pam mae baich gwaith wedi cynyddu:**

**1.6. Amser annigonol i ymdrin ag agweddau paratoi'r rôl (690 o sylwadau)**

- Heriau sylweddol o ran datblygu neu drosi adnoddau ar gyfer darparu ar-lein;
- Rhaid addasu gwersi (yn enwedig pynciau ymarferol) i weddu i ddysgu cyfunol.

**Enghreifftiau**

*Er mwyn ennyn diddordeb y dysgwyr, rhaid i'r adnoddau fod yn fwy rhyngweithiol a chynnwys creu cwisiau, tasgau ymchwil (y mae angen eu marcio) a datblygu adnoddau YouTube sy'n eu cynnwys yn fwy effeithiol na llais ar sgrin.*

*Trosi taflenni, taflenni cwestiynau ac asesiadau yn adnoddau ar-lein a cheisio trosi o fformat PDF i ddogfen Word. Ddim yn hawdd os nad oes gennych y fersiwn lawn o'r trawsnewidydd PDF oni bai fy mod yn ei brynu fy hun. Hefyd, mae marcio gwaith y myfyrwyr yn anodd iawn gan eu bod yn anfon delwedd ffotograff o'u gwaith. Nid yw apiau fel "Forms" yn addas ar gyfer fy mhwc i ar Safon Uwch.*

*Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael gafael ar yr holl ddeunyddiau ar gyfer sesiynau ar-lein, p'un a ydynt yn defnyddio ffonau clyfar, iPads neu liniaduron. Mae'n rhaid i chi feddwl bob amser am hygyrchedd a defnydd hwylus o daflenni gwaith/gweithgareddau i ddysgwyr. Gall hyn gymryd sawl fersiwn o weithgaredd cyn ei fod yn addas i'r diben ar gyfer pob dysgwr yn y grŵp.*

*Rwyf wedi bod yn cynllunio adnoddau ond heb gael unrhyw amser ychwanegol i wneud hynny. ....gofynnwyd i mi gynhyrchu adnoddau ar gyfer stafferail.*

*Rwy'n gweithio mewn maes ymarferol felly mae ffilmio arddangosiadau ar fy ffôn symudol a'u hail-ffilmio gan nad wyf yn arbenigwr mewn ffilmio/goleuo/golygu yn cymryd amser hir iawn, weithiau hyd at dair awr i ffilmio arddangosiad 5-10 munud byr i sicrhau bod yr ansawdd yn ddigon da... Mae arddangosiadau mwy o faint wedi cymryd oriau i'w ffilmio a diwrnodau i'w golygu a'u huwchlwytho.*

*Gellir arddangos llawer o'm cynnwys yn ymarferol, ac mae'n addas ar gyfer gweithio un ac un neu gyda grwpiau bach. Mae symud i ddysgu ar-lein wedi cynyddu faint o gynnwys cymorth y mae angen i mi ei gynhyrchu i alluogi annibyniaeth, neu newid cynnwys i weddu i weithio gartref.*

### **1.7. Dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt (un ac un/bugeiliol/lles) (329 o sylwadau)**

- Mwy o alw am gymorth bugeiliol a chwrsela yn ystod y pandemig;
- Mae'n well gan ddysgwyr godi cwestiynau mewn perthynas â'u hastudiaethau y tu allan i wersi;
- Gellir cael ymholiadau gan ddysgwyr ar unrhyw adeg o'r dydd;
- Mae angen cymorth ychwanegol pan fydd dysgwyr wedi colli gwersi oherwydd materion technoleg.

#### Enghreifftiau

*Mae'r myfyrwyr fel petaent yn cael mwy o drafferth, ac mae angen mwy o gymorth a sicrhau arnynt.*

*Mae myfyrwyr yn eich peledu o hyd â chwestiynau 24 awr y dydd, sy'n cynyddu'r pwysau i ymateb. Ni fyddent yn cerdded i mewn i'ch ystafell pe baech yn dysgu dosbarth ond byddant yn anwybyddu neges 'brysur' ar Teams.*

*Mae gweithio o gartref yn golygu bod gwaith yn ehangu i'r amser sydd ar gael, ac o'r blaen byddai'r cymudo'n cyfyngu'r gwaith i'r gweithle. Nawr, mae athrawon 'ymlaen' bron bob awr o bob dydd. Mae myfyrwyr yn trin Teams fel math o gyfryngau cymdeithasol ac yn cysylltu â chi ar unrhyw adeg o'r dydd, pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Mae angen rheoli disgwyladau.*

*Esbonio i ddysgwyr absennol yr hyn y maent wedi'i golli yn y wers i'w galluogi i ddeall cynnwys a gyflwynir neu dasgau i'w cwblhau.*

*Amser un ac un ychwanegol sylweddol gyda dysgwyr i gefnogi eu lles emosiynol a'u strategaethau i oresgyn caledi oherwydd gweithio ar-lein yn ystod y cyfnod clo.*

*Mae wedi golygu bod dysgwyr yn gallu cael gafael arnaf yn haws. Hefyd, ni allant gael gafael ar eraill yn y coleg, felly maen nhw'n disgwyl i mi ddelio â phopeth iddynt. Mae ganddynt fwy o broblemau i ddelio â hwy a gallant gael gafael arnaf yn hawdd drwy Teams.*

### **1.8. TGCh - Dyluniad a dibynadwyedd systemau TG/diffyg cymorth ar gael (316 o sylwadau)**

- Materion TG sy'n deillio o ddiffyg systemau/meddalwedd sy'n addas i'r diben a methiannau cysylltu â'r rhyngwyd. Mae hyn yn berthnasol i staff a dysgwyr (147 o sylwadau);
- Roedd y staff yn teimlo bod cryn amser wedi'i dreulio'n ceisio nodi'r dulliau/rhaglenni gorau ar gyfer dysgu digidol a dysgu sut i wneud defnydd llawn o'r gwahanol raglenni (143 o sylwadau);
- Roedd llwytho adnoddau i fyny hefyd yn cymryd llawer o amser i rai (26 o sylwadau).

#### Enghreifftiau

*Un o'r prif anawsterau fu'r diffyg dibynadwyedd gyda Microsoft Teams yn gyffredinol ac ar draws gwahanol lwyfannau caledwedd a meddalwedd. Mae ymhell o fod yn gynnrych gorffenedig ac ni chafodd ei gynllunio ar gyfer y defnydd hwn. Nid yw'n llwyddo i gofnodisesiynau, felly mae'n rhaid eu cyflwyno'r*

*eilwaith i'r rhai nad ydynt yn gallu bod yn bresennol er mwyn peidio ag anfanteisio neb. Gall yr ansawdd pan fydd nifer o bobl yn mynychu sesiwn fod yn wirioneddol warthus i fyfyrwyr sy'n dibynnu ar Wi-fi. Dim ond yn ysbeidiol y mae'r nodweddion ychwanegol, a hyd yn oed rhai o'r pethau sylfaenol fel sain, yn gweithio.*

*Bu problemau technegol yn amlwg drwyddi draw a bu'n llafurus delio â hyn.*

*Systemau TG nad ydynt yn 'siarad' â'i gilydd, trosglwyddo adnoddau ac ati i wahanol llwyfannau. Y ffaith nad yw'r dysgwyr yn gallu cael at feddalwedd gytûn.*

*Ymgysylltu â'r llwyfannau a'r offer sydd eu hangen i gyflwyno'r gwersi. Mae bod yn hyderus wrth gyflwyno'r sesiynau yn cymryd ymarfer ac amser.*

*Gorfod llwytho adnoddau i fyny i sawl platfform gwahanol - TEAMS a Moodle*

### **1.9. Gofynion gweinyddu a / neu waith papur - tasgau ymarferol fel olrhain presenoldeb (228 o sylwadau)**

- Llawer o sylwadau am lenwi ffurflenni, cofnodi data a gwaith papur "diangen"; dyblygu gofynion ar gyfer gwybodaeth debyg mewn gwahanol fformatau;
- Roedd annog ymgysylltu a mynd ar drywydd dysgwyr ynghylch presenoldeb a gwaith hefyd yn cynyddu baich gwaith.

#### Enghreifftiau

*Disgwylir i mi hefyd ddyblygu canlyniadau fy myfyrwyr ar wahanol waith papur (nad oes modd ei dorri a'i ludo) ar gyfer yr adran/Coleg. Nid oes rheswm o gwbl dros hyn ac mae'n creu mwy fyth o waith papur i'w gwblhau.*

*Mae tasgau gweinyddol wedi cynyddu'n sylweddol yn ogystal â chyfarfodydd ychwanegol gyda chydweithwyr/rheolwyr.*

*Bu mwy o alw am ddata tracio/tystiolaeth myfyrwyr sy'n ofynnol, a hynny eisoes yn feichus.*

*Mynd ar drywydd dysgwyr i sicrhau presenoldeb, ymgysylltiad a chwblhau gwaith asesu.*

*Treuliwyd mwy o amser yn mynd ar drywydd dysgwyr na fuont yn ymgysylltu neu'n mynychu gwersi ar-lein. Teimlaf y dylid gosod mwy o ganlyniadau ar ddysgwyr a rhieni am gymryd rhan.*

### **1.10. Amser annigonol i gwblhau marcio, adborth ac asesu (188 o sylwadau)**

- Teimlir bod marcio gwaith yn ddigidol yn cymryd mwy o amser a bod swmp y gwaith yr oedd angen ei farcio wedi cynyddu;
- Ni ellid gwneud marcio dosbarth nac adborth llafar mwyach mewn amgylchedd dysgu cyfunol, gan arwain at fwy o asesu.

#### Enghreifftiau

*Rhaid i waith ar gyfer TGAU Saesneg fod mewn llawysgrifen, felly mae dysgwyr yn ei ysgrifennu, cyn ei anfon fel llun - yna mae angen i mi ei lawrlwytho, ei drosi i PDF, ei anodi, ei gadw a'i anfon yn ôl. Mae'n cymryd tair gwaith cyhyd â marcio ymateb wedi'i deipio ar Google Classroom neu gyflwyniad papur yn bersonol.*

*Mae hefyd wedi creu mwy o asesiadau y mae gofyn eu marcio a rhoi adborth yn eu cylch. Pe byddai hyn yn digwydd yn yr ystafell ddosbarth yn unig, byddai rhywfaint o'r adborth yn cael ei roi ar lafara byddwn yn monitro dealltwriaeth drwy gwestiynu effeithiol.*

*Mae marcio'n cymryd mwy o amser oherwydd ni ellir argraffu gwaith. Mae angen trefnu asesiadau'n electronig a chyda dosbarthiadau ac unedau gwahanol, mae bellach yn dasg anferthol.*

*Mewn sefyllfa arferol yn yr ystafell ddosbarth, byddech yn gallu gofyn cwestiynau i asesu cynnydd a gwybodaeth a chrwydro o amgylch yr ystafell ddosbarth i wirio gwaith myfyrwyr a chywiro ac ati. Fodd bynnag, nid yw hyn yn hawdd i'w wneud mewn ystafell ddosbarth rithwir, ac felly mae mwy o angen gwirio a marcio gwaith dosbarth ar gyfer pob myfyriwr.*

#### **1.11. Heriau cyflwyno dysgu ar-lein/cyfunol/dysgu hybrid (124 o sylwadau)**

- Heriau gyda dysgu hybrid lle mae rhai dysgwyr yn bresennol ac eraill yn dysgu o bell. Roedd yn rhaid gwahaniaethu rhwng y gwaith paratoi;
- Mae cyflwyno gwersi yn cymryd mwy o amser o'i gymharu ag addysgu wyneb yn wyneb;
- Mae dysgwyr yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â dysgu cyfunol.

#### Enghreifftiau

*Mae cyflenwi ar-lein ynghyd â chyflenwi yn yr ystafell ddosbarth fel addysgu dau grŵp ar unwaith. Dylai dosbarthiadau fod yn un neu'r llall ac nid y ddau. Mae cyflenwi gwersi'n cymryd mwy o amser oherwydd bod y rhyngwyd yn methu ar adegau. Mae angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr a staff, a hwnnw'n cymryd amser. Mae angen neilltuo amser fel cyfarfod i sgorsiau sydd fel arfer yn digwydd yn anffurfiol.*

*Addasu cynlluniau gwersi ac adnoddau feleu bod yn gweithio'n effeithiol yn ystod addysgu o bell a ffrydio byw yn yr ystafell ddosbarth.*

*Mae'n amhosibl gweld arwyddion hanfodol fel mynegiant wyneb ac iaith y corff i fesur dysgu, hyd yn oed pe bai'r dysgwyr yn gadael eu camerâu ymlaen. Rhaid ichi wneud llawer mwy o holi i geisio gwneud iawn am y problemau hyn, sy'n arafu'r wers ymhellach. Mae natur y llwyfan yn annog dysgwyr llai hyderus i beidio â gofyn cwestiynau. Yn gyffredinol, dywedwn fod cyflymder y dysgu drwy'r llwyfan tuag 80% o gyflymder addysgu wyneb yn wyneb.*

#### **Dadansoddiad o sylwadau ynghylch awgrymiadau ymarferol ar sut y gellir gwella baich gwaith:**

#### **1.12. Newid i oriau cyswllt er mwyn caniatáu mwy o amser i baratoi a marcio (83 o sylwadau)**

- Oherwydd y gwaith ychwanegol a grëwyd o baratoi a marcio, codwyd awgrymiadau mewn perthynas ag oriau addysgu a soniwyd y dylid lleihau'r rhain er mwyn gwneud iawn am y gwaith ychwanegol;
- Codwyd awgrymiadau tebyg ynghylch rhoi amser ychwanegol i staff i ganiatáu ar gyfery baich gwaith cynyddol.

#### Enghreifftiau

*Neilltuo amser ar yr amserlen i drosi ac ail-gynllunio gwersi i'w cyflenwi ar-lein.*

*Byddai llai o amserlen ac amser cyswllt yn helpu ymarferwyr i geisio "dal i fyny" gyda marcio a themlo'n barod ar gyfer yr wythnos ganlynol.*

*Mae'r dysgwyr cyfunol wedi cynyddu fy baich gwaith yn sylweddol: mae oriau cyswllt â dysgwyr wedi cynyddu'n unigol; asesiad unigol drwy Teams; trafod gwaith gyda dysgwyr. Awgrym ymarferol fyddai gostwng y 24 awro addysgu. Ei ostwng efallai i 18 neu 20 awr.*

*Angen mwy o oriau â thâl i reoli'r gwaith a gollir gan ddysgwyr oherwydd presenoldeb gwael ac amser gweinyddu ychwanegol.*

*Dysgu sgiliau newydd, trosi'r holl adnoddau presennol i fformat ar-lein. Mae asesu a marcio yn cymryd llawer mwy o amser ar-lein. Er mwyn gwella hyn, byddai mwy o amser digyswllt wedi'i gynnwys mewn amserlenni bob wythnos yn ddefnyddiol.*

### **1.13. Cronfa adnoddau genedlaethol wedi'i datblygu gan gyrff dyfarnu neu gan ymarferwyr profiadol (39 o sylwadau)**

- Cafwyd awgrymiadau ar gyfer cronfa adnoddau genedlaethol wedi'i datblygu gan gyrff dyfarnu neu gan ymarferwyr profiadol (yn arbennig o ddefnyddiol i athrawon newydd gymhwyso); gan gynnwys cynlluniau asesu a marcio y gellir eu haddasu;
- Teimlwyd y gallai hyn leihau amser paratoi.

#### Enghreifftiau

*Gallai'r Coleg ddarparu "cronfa" o adnoddau ym mhob maes gan fod gennym fentoriaid dysgu ac addysgu, fel y gellid eu defnyddio i gasglu'r wybodaeth hon a sicrhau ei bod ar gael yn hawdd ar-lein i staff addysgu.*

*Efallai y gallem fod yn fwy effeithlon pe bai gennym gronfa o adnoddau a gweithgareddau ar-lein ar gyfer y sector addysg bellach yng Nghymru y gallem eu defnyddio i rannu'r baich gwaith.*

*Gellid gwella hyn drwy gael cronfa o adnoddau ar gyfer unrhyw addysgu ar-lein yn y dyfodol a gwell perthynas â'n partneriaid dramor.*

### **1.14. Gwelliannau TGCh (37 o sylwadau)**

- Dysgwyr a staff i gael at ddyfeisiau digidol priodol;
- Lleihau nifer y gwahanol lwyfannau/technolegau TG a sicrhau systemau a meddalwedd addas i'r diben;
- Edrych ar integreiddio rhwng systemau. Cynnwys staff wrth ddylunio, profi a gwerthuso systemau TG.

#### Enghreifftiau

*Mae diffyg offer yn golygu bod amser yn cael ei dreulio yn chwilio am ddewisiadau amgen e.e. gorfod dod i ddeall sut i ddefnyddio fy iPad fel "bwrdd gwyn" gan nad oes gennyf gyfrifiadur sgrin gyffwrdd a dim ond i'r rhai sy'n addysgu pynciau eraill y rhoddwyd tabledi graffeg. Buddsoddi mewn offer addas a darparu gwell cymorth TG.*

*Byddai myfyrwyr yn cael dyfeisiau gwell yn helpu'n fawr hefyd.*

*Mae systemau TG gwael sy'n methu mewn colegau wedi golygu bod tasgau syml yn troi'n broblemau enfawr ac, er bod rheolwyr yn cael yr un problemau, nid ydynt yn eu cymryd i ystyriaeth. Nid wyf wedi cael staff cymorth wedi'u dyrannu ...sy'n gwneud dysgu cyfunol yn straen mawr. Y prif awgrym fyddai systemau TG ymarferol sy'n addas ar gyfer dysgu o bell a myfyrwyr ADY.*



*Mae angen gwella'r dechnoleg sydd ar gael, a thybiwyd bod gan bobl dechnoleg gartref ac, yn bersonol, rwyf wedi teimlo na chefais gymorth o gwbl yn hyn o beth.*

### **1.15. Hyfforddiant ychwanegol i'w ddarparu ar gyfer staff a dysgwyr (26 o sylwadau)**

- Awgrymwyd hyfforddiant ychwanegol, gyda'r rhan fwyaf o awgrymiadau'n ymwneud â hyfforddiant mewn TG/dysgu digidol.

#### Enghreifftiau

*Diffyg cymhwysedd digidol - mwy o amser ar gyfer hyfforddiant, uwchsgilio, ymarfer ffyrdd newydd o addysgu.*

*Mwy o hyfforddiant staff a rhannu adnoddau. Bu hyfforddiant staff ar yr hyn sydd ar gael ond byddai'n fwy defnyddiol hyfforddi staff mewn ffordd ymarferol, yn hytrach na dangos a dweud gan staff sydd eisoes yn gwybod sut i'w ddefnyddio. Hefyd, mae angen gwell hyfforddiant cynefino dysgwyr i ddangos iddynt sut mae cael at lwyfannau digidol a'u defnyddio ar ddechrau eu cwrs (ar yr amod bod dyfeisiau a'r rhyngwyd ar gael iddynt.)*

*Mae darparu dysgu o bell yn broses gwbl wahanol i addysgu wyneb yn wyneb a dysgu gweithredol sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth, yn llawer anoddach i'w alluogi o bell. Mae angen hyfforddiant cyson i gadw i fyny â'r her hon ac mae dysgwyr yn cymryd llawer llai o ran nag y maent mewn ystafell ddosbarth.*

### **1.16. Addasu disgwyliadau tra bydd dysgu cyfunol yn digwydd (23 sylw)**

- Teimlai rhai staff nad yw'r disgwyliadau presennol wedi ystyried y baich gwaith cynyddol ac felly y dylid addasu'r disgwyliadau yn unol â hynny mewn meysydd fel asesu a gweinyddu.

#### Enghreifftiau

*Gorfod ailgynllunio ac ail-greu modiwlau cyfan yn seiliedig ar gynnwys i'w gyflwyno ar-lein yn hytrach nag yn y dosbarth. Peidio ag ystyried anhawster gweithio gartref yn y lle cyntaf. Gellid gwella hyn drwy gael mwy o amser a hyblygrwydd yn y dulliau asesu gwreiddiol, a chaniatáu i diwtoriaid helpu i drafod dulliau asesu amgen a allai gynnwys y gallu i gyflwyno cynnwys ar-lein.*

*Rhoddir gormod o waith gweinyddu o bell i ddarlithwyr yn ystod cyfnod COVID-19 a dylid lleihau hwn. Hefyd, ni chaniateir bob amser am gyfrifoldebau eraill sydd gan gyflogaion ar hyn o bryd, fel plant yn y cartref, bod heb ystafell ddynodedig yn eich tŷ i addysgu pynciau ymarferol, felly mae'r gwaith paratoi yn hirach. Ni chaniateir bob amser am ddyfeisiau a systemau nad ydynt yn gweithio'n effeithlon, ac mae'r holl broblemau hyn yn cymryd amser ychwanegol. Ni ddylid disgwyl i ddarlithwyr gyflawni dyletswyddau gartref fel y maent yn ei wneud wrth weithio ar y safle oherwydd bod yr holl ffactorau uchod yn achosi straen ychwanegol yn ystod cyfnod sydd eisoes yn peri straen.*

*Mynd ar drywydd dysgwyr nad ydynt yn cymryd rhan, cael sawl peth ar agor ar unwaith i ymdopi, Teams, e-bost, gwersi, cael eich peledu i geisio dilyn amserlen ond yn realistig nid yw'n gynaliadwy. Egluro i rieni nad yw hyn yr un fath â bod mewn ystafell ddosbarth felly mae'n rhaid i ni gymhwyso nifer o strategaethau, heb fod disgwyl inni fod yn eistedd o flaen sgrin yn cynnal pob sesiwn drwy alwad fideo byw.*

## 2. Dysgu proffesiynol

### Themâu cyffredinol o sylwadau testun agored - dysgu proffesiynol:

- sgiliau TGCh gan gynnwys dysgu digidol/cyfunol;
- gwybodaeth am y pwnc a/neu'r diwydiant;
- iechyd meddwl a lles;
- sylwadau cyffredinol ynghylch amser annigonol i gwblhau dysgu proffesiynol;
- asesu/marcio a rhoi adborth;
- gwella sgiliau Cymraeg;
- rhwydweithio/cysgodi/rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr;
- arweinyddiaeth a rheolaeth.

**Cyfanswm yr ymatebion: 1,722**

**Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 1,002**

Mewn ymateb i:

*16. Ym mha feysydd y byddech yn croesawu datblygiad pellach i'ch helpu i fod yn weithiwr addysg proffesiynol mwy effeithiol? (rhestrwch hyf at dri maes)*

### Dadansoddiad o sylwadau sy'n ymwneud â'r prif themâu dysgu proffesiynol

#### 2.1 Sgiliau TGCh/digidol gan gynnwys dysgu digidol/cyfunol (401 o sylwadau)

- Hoffai athrawon AB gael hyfforddiant ychwanegol er mwyn gweithredu dysgu digidol/cyfunol yn llwyddiannus;
- Teimlai rhai athrawon AB nad ydynt wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu dysgu digidol/cyfunol yn ystod pandemig Covid-19.

#### Enghreifftiau

*Cael amser i ddatblygu sgiliau addysgu o bell, defnyddio technoleg yn effeithiol i ddarparu dysgu digidol yn broffesiynol, yn effeithiol ac yn effeithlon.*

*Dulliau defnyddio technoleg ddigidol i wella ansawdd yr addysgu.*

*Dod yn fwy hyfedr o ran cyflenwi ar-lein.*

*Hyfforddiant TG - dangosir i ni sut mae defnyddio darn o feddalwedd, sy'n edrych yn wych, ond yna ni chawn yr amser na'r cymorth i'w ddefnyddio yn ein haddysgu na chanllawiau i'w gynhyrchu a syniadau ar sut i'w weithredu.*

#### 2.2 Datblygiad proffesiynol pwnc-benodol (244 o sylwadau)

- Credai athrawon AB y byddai dysgu proffesiynol o fudd yn y meysydd y maent yn eu haddysgu ar hyn o bryd. Byddai hyn yn galluogi staff a myfyrwyr i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y diwydiant presennol;
- Roedd y mathau o ddysgu proffesiynol a ddymunir yn amrywio o gyrсияu penodol i gymwysterau mwy ffurfiol, fel cymwysterau Meistr.

#### Enghreifftiau

*Hoffwn weld mwy o gyfleoedd hyfforddi a dysgu pwnc-benodol. Y prif fater gyda'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant a gynigir yw ei fod yn gyffredinol ac nid yw'n ychwanegu gwerth at fy mhortffolio o arbenigedd. Yn rhy aml, gofynnir i ni ymgymryd â hyfforddiant nad oes fawr o werth iddo ac nad yw'n gwneud dim i wella addysgu, dysgu ac asesiadau dysgwyr.*

*Mwy o gyfle i fynd i mewn i'r diwydiant i ddiweddarau gwybodaeth. Y gallu i gynnig cyrsiau mwy proffesiynoli ddiweddarau gwybodaeth benodol am bwnc.*

*Rwy'n gweithio ..... ac mae'r diffyg hyfforddiant neu uwchsgilio ers i mi gael fy nghyflogi yn y coleg .... wedi bod tua 4 awr. Mae'r sesiynau datblygu staff i gyd yn rhai cyffredinol sy'n addas i bawb, ond dylid eu teilwra o amgylch y meysydd rydych yn gweithio ynddynt i sicrhau bod yr holl staff yn uwchsgilio ac yn teimlo'n hyderus gyda'r datblygiadau yn y meysydd hyn. Mae hyn hefyd yn eich galluogi i ddatblygu eich addysgu a'ch deunydd yn unol â hynny.*

*Datblygu fy nghymwysterau i radd mistr, i ddyfnhau fy ngwybodaeth a'm harbenigedd yn y maes rwy'n ei addysgu.*

### **2.3 Iechyd meddwl/lles (73 o sylwadau)**

- Teimlai athrawon AB fod cryn dipyn o amser yn cael ei dreulio'n delio â materion iechyd meddwl a lles gyda myfyrwyr;
- Teimlai rhai fod y pandemig wedi cynyddu'r materion hyn a bod felly angen hyfforddiant digonol yn hyn pan fydd myfyrwyr yn dychwelyd i'r coleg.

#### Enghreifftiau

*Cefnogi fy nysgwyr drwy'r pandemig - cymorth emosïynol, meddyliol a lles i'w galluogi i oroesi hyn heb niwed a'u helpu i addasu'n ddiogel yn ôl i fywyd 'normal'.*

*Gwell dealltwriaeth o sgiliau iechyd meddwl a chwmsela, gan fod cymaint o amser yn cael ei gymryd i gefnogi myfyrwyr mewn sgiliau bywyd.*

*Mwy o gymorth ar sut y gallwch helpu myfyriwr mewn ystyr fugeiliol - yn enwedig gyda chymorth iechyd meddwl oherwydd, er bod gennym gwmsela i'w gynnig i fyfyrwyr, nid yw hyn bob amser ar gael yn rhwydd neu byddai'n well gan ryw fyfyrwr siarad â rhywun y mae'n ei adnabod fel athro pwnc neu diwtor personol.*

### **2.4 Sylwadau cyffredinol ynghylch amser annigonol i gwblhau dysgu proffesiynol (56 o sylwadau)**

- Er nad yw'n awgrym dysgu proffesiynol, gwnaed sylwadau gan ddarlithwyr AB ynghylch amser annigonol i gwblhau eu dysgu proffesiynol dymunol;
- Teimlai darlithwyr AB y dylid neilltuo amser ar gyfer dysgu proffesiynol, yn hytrach na'i wneud yn eu hamser eu hunain.

#### Enghreifftiau

*Wrth gynnig hyfforddiant i staff, amser yw'r ffactor mawr. P'un a yw o ganlyniad i lwyth gwaith ac amser, mae hwn yn un mater allweddol i lawer.*

*Caniatáu amser i ddatblygu ymarfer proffesiynol drwy gydol y flwyddyn.*

*Amser wedi'i nodi yn yr wythnos i ymgymryd â datblygiad proffesiynol; mae hyn yn ofynnol i ni ei gwblhau ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i ni wneud hynny yn ein hamser ein hunain ar ben ein cyfrifoldebau amser llawn. Rwy'n teimlo y dylai fod yn gyfle, nid baich fel y mae ar hyn o bryd.*

*Y cydbwysedd amser. Ar ôl cwblhau MA yn ddiweddar, roedd yn anodd cydbwysu'r ddau. Fe hoffwn ymgymryd â PhD i ddatblygu fy sgiliau, ond nid oes gennyf yr amser ar gael i wneud hynny.*

## **2.5 Asesu, marcio a rhoi adborth (55 o sylwadau)**

- Dywedodd nifer o ddarlithwyr AB yr hoffent gael cymwysterau asesydd;
- At hynny, awgrymwyd hyfforddiant mewn technegau marcio ac adborth hefyd, gan gynnwys mewn amgylchedd dysgu digidol.

### Enghreifftiau

*Marcio ac asesu'n fwy effeithlon.*

*Dulliau asesu/cyflwyno adborth.*

*Collir asesiadau ac adborth o fewn amgylchedd digidol yn y byd ar-lein.*

*Ennill cymhwyster Asesydd.*

## **2.6 Y Gymraeg (47 o sylwadau)**

- Mae awydd i athrawon AB naill ai ddechrau neu barhau â datblygu'r Gymraeg.

### Enghreifftiau

*Rwy'n awyddus iawn i ddysgu Cymraeg ond nid wyf wedi dod o hyd i gwrs y gallaf ei gael fel darlithydd.*

*Parhau i ddatblygu fy sgiliau Cymraeg ymhellach.*

*Datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn fy addysgu.*

*Hoffwn wella fy sgiliau Cymraeg a hoffwn petai mwy o gyrsiau ar gael yn rhan-amser.*

## **2.7 Rhwydweithio/cysgodi/rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr a/neu ddiwydiant (44 o sylwadau)**

- Teimlai darlithwyr AB y byddai'n fuddiol i'w dysgu proffesiynol gael cyfle i rannu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill;
- Awgrymwyd hefyd y dylid cydweithio â chyflogwyr sy'n arbenigo yn eu pwnc i wella eu haddysgu.

### Enghreifftiau

*Gweithio gyda chydweithwyr o safleoedd AB eraill ar yr un cyrsiau i rannu arfer da.*

*Cyfleoedd i arsylwi ar arfer da mewn ysgolion a cholegau eraill.*

*Cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau â sefydliadau addysgol eraill, gan gynnwys prifysgolion, ar gyfer cydweithio*

*Adolygiad gan gymheiriaid gyda chydweithwyr a cholegau ledled Cymru - ymagwedd fwy cenedlaethol at gymunedau ymarfer a rhwydwaith neu grŵp llywio ehangach i gydweithio ar brosiectau a datblygu mentrau gydag amser i ymweld â chyflogwyr lleol ac ymgysylltu â nhw.*

## **2.8 Arweinyddiaeth a rheolaeth (35 o sylwadau)**

- Mynegodd rhai athrawon AB awydd i gael yr hyfforddiant a'r datblygiad er mwyn rhoi'r sgiliau iddynt ddatblygu i rôl reoli/arwain.

### Enghreifftiau

*Camu i fyny o Ddarlithydd i Reolwr Canol heb y gofyniad profiad, h.y. Sut y caf fi rôl fel Pennaeth Ysgol os na allaf gael y profiad?*

*Bu arnaf eisiau mynychu cwrs rheoli canol ers dwy flynedd bellach i'm cefnogi yn fy rôl.*

*Rhaglenni hyfforddi sy'n fuddiol i ddilyniant.*